# Cronfa Arloesedd Anableddau Dysgu







**Ffurflen gais a chanllaw i wneud cais.**




**Darllen Hawdd**




# Y Siarter

Mae'n rhaid i'ch prosiect chi fodloni 1 neu fwy o rannau o'r **Siarter anabledd dysgu**.



Cafodd y siarter ei ysgrifennu gan bobl sydd ag anableddau dysgu o Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion.

Mae mwy o wybodaeth yma:

www.pembrokeshirepeople1st.org.uk

# Dysgu Gorllewin Cymru

# Siarter Anableddau

**Mae pobl sydd ag anableddau dysgu eisiau'r un pethau â phawb arall.**

- **Fy Mywyd, Fy Hawliau**

  Mwy o gyfleoedd mewn bywyd; mwy o ddewis; cael ein clywed; cael ein trin fel oedolion; cael urddas a pharch ac i chi gadw ein gwybodaeth ni'n breifat.

- **Fy Nghymuned. Fy Mherthnasoedd**

  Gallu teithio'n annibynnol; help i ddeall arian fel bod gennym ni fwy o reolaeth; hyfforddi pobl eraill i ddeall ein bywydau – ni yw'r arbenigwyr; cymryd rhan yn ein cymunedau ni; cael swyddi gyda thâl; yr hawl i fwynhau cyfeillgarwch a rhyw, yn yr un modd yn union â phawb arall a'r hawl i gael teulu.

- **Fy mywyd cymdeithasol**

  Mynd i lefydd mae pawb arall yn mynd a chael ein croesawu; gwneud pethau gyda'r nos ac ar benwythnosau; mwynhau cyfeillgarwch, perthnasoedd a rhyw fel y byddwn ni'n dewis; i bobl ein croesawu ni a deall beth sydd ei angen arnom ni pan fyddwn ni allan ac i gael mwy o wybodaeth am beth sy'n digwydd.

- **Fy Nghefnogaeth**

  Help i ddilyn ein breuddwydion; hyfforddiant i staff sy'n gweithio gyda ni; dod i nabod pobl sy'n cefnogi ni; ymddiried mewn pobl i wneud yr hyn maen nhw'n dweud a chael mynediad at eiriolaeth.

- **Fy Iechyd**

  Cael y gofal iechyd sydd ei angen arnom ni gan feddygon teulu ac ysbytai; cael gwiriad iechyd bob blwyddyn; i staff gael eu hyfforddi gennym ni; apwyntiadau sy'n hawdd eu trefnu ac ar amser, a rheolaeth dros ein hiechyd ni – ein cyrff ni ydyn nhw!

- **Fy Annibyniaeth**


  Rhoi lle i ni – dim gormod o bethau ar yr un pryd; teimlo'n ddiogel – i'n helpu ni i gael gwybod am fwlio a throseddau casineb, a beth i'w wneud amdanyn nhw; amser i ni feddwl drosom ein hunain; cymorth i fyw ar ein pennau ein hunain os ydyn ni eisiau; cefnogaeth pan fyddwn ni'n rhieni ac i sefyll lan dros ein hawliau ni!

- **Fy Nghyfathrebu**

  Gwneud pethau'n hawdd i ni ddarllen; llythyrau a thaflenni y gallwn ni eu deall – cadw pethau'n syml! darganfod beth sy'n gweithio i ni – rydyn ni i gyd yn wahanol; siarad drosom ni ein hunain a chael amser i feddwl ac ateb – paid â rhuthro ni!



# Am y gronfa



Mae'r gronfa ar gyfer syniadau newydd gan bobl sydd ag anableddau dysgu.

Hynny yw, syniadau ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau newydd ac i brofi a ydyn nhw'n gweithio.



Mae'r gronfa ar gyfer cyrff trydydd sector a **chyrff statudol** sydd eisiau cyd-gynhyrchu prosiectau gyda phobl sydd ag anableddau dysgu.




Mae cyrff statudol yn sefydliadau fel Cynghorau, Byrddau Iechyd neu Barciau Cenedlaethol.



# Yr arian

Mae hwn yn grant newydd.

Mae'r arian yn dod o'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn gyfrifol am y gronfa. Maen nhw'n gweithio gyda:

- Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

y Bartneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol (RILP), a fydd yn rhedeg y gronfa. Maen nhw'n cael eu cadeirio gan y Tîm Breuddwyd a'u cefnogi gan Bobl yn Gyntaf Sir Benfro.




# Pwy sy'n gallu ymgeisio?




I wneud cais, mae'n rhaid i chi fod yn:

- Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol
- Menter gymdeithasol

Mae'n rhaid i chi gael eich sefydlu'n iawn gyda rheolau a strwythur cryf.

Mae'n rhaid i chi gael cyfrif banc sydd angen 2 lofnod neu fwy.



Mae'n rhaid eich bod chi'n cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu.




Os ydych chi'n gorff statudol gallwch chi wneud cais os:


- yw eich prosiect yn cael ei gyd-gynhyrchu gan bobl sydd ag anableddau dysgu
- ydych chi'n gallu dangos cysylltiadau cryf â'r siarter.




Mae'r gronfa ar gyfer prosiectau yng Ngorllewin Cymru:

- Sir Benfro
- Sir Gâr
- Ceredigion

# Mae'n rhaid i'ch syniad am brosiect:



- Fod yn syniad newydd a fydd yn newid y ffordd y mae pobl sydd ag anableddau dysgu'n cael eu cefnogi



- Cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno ar y cyd gan bobl sydd ag anableddau dysgu




- Creu manteision clir ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu



- Gallu rhannu'r hyn rydych chi'n ei ddysgu



- Cynnig gwerth da am arian




Bydd angen i chi esbonio sut y bydd eich prosiect yn dilyn canllawiau a rheolau Covid.




# Ar beth gallwch chi wario'r grant?

**£10,000**

Bydd y gronfa'n talu am £10,000 ar gyfer pob prosiect. Gall hynny fod yn gost lawn y prosiect. Does dim angen i chi ychwanegu eich arian eich hun.



Mae'r grant ar gyfer costau parhaus



Costau parhaus yw pethau fel cyflogau a llogi ystafelloedd.



Gallwch chi ofyn am 20% o'ch grant ar gyfer costau cyfalaf.



Mae costau cyfalaf yn bethau rydych chi'n eu prynu unwaith. Gall hynny fod yn bethau fel gliniaduron neu gamerâu.



# Ar beth na allwch chi wario'r grant




- Gweithgareddau neu wasanaethau sydd eisoes yn bodoli.
- Costau ar gyfer eich prosiect sydd wedi cael eu talu cyn i chi wneud cais am y grant
- Rhan fach o brosiect mawr, oni bai ei fod am ran o'r prosiect sy'n gallu gweithio ar ei ben ei hun.





# Am faint mae'r grant yn parhau?




Mae'n rhaid i chi orffen y prosiect a gwario'r arian erbyn 31 Mawrth 2022.




# Monitro eich prosiect.




Bydd angen i chi ysgrifennu adroddiad ar ddiwedd eich prosiect.

Bydd angen i chi wneud hyn dim mwy na 2 wythnos ar ôl i chi orffen.

# Cyhoeddusrwydd






Mae angen i chi ddweud wrth bobl am y grant a'r ariannwr pan fyddwch chi'n siarad am eich prosiect. Mae hyn yn golygu:

- Posteri
- Taflenni
- Gwefan
- Cyfryngau cymdeithasol

# Mwy o wybodaeth a chymorth

Gallwch chi ofyn i'ch cyngor gwirfoddolwyr lleol am gymorth a mwy o wybodaeth.

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)

01437 769422

E-bost: development@pavs.org.uk

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS)

E-bost: Jackie.Dorrian@cavs.org.uk

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

E-bost: gen@cavo.org.uk




# Gwneud cais am y grant

Bydd angen i chi lenwi ffurflen



Bydd angen i chi wneud ffilm fer sy'n dweud wrthyn ni am eich prosiect.




Pan fyddwch chi'n llenwi eich ffurflen mae'n rhaid i chi:



- Ddangos sut mae eich prosiect yn cael ei gyd-gynhyrchu gan bobl sydd ag anableddau dysgu



- Gwneud yn siŵr bod eich costau mor gywir â phosibl.



- Cynnwys 2 ddyfynbris ar gyfer unrhyw beth sy'n costio mwy na £500



- Dangos eich bod chi'n cynnig gwerth da am arian



# Y dyddiad cau ar gyfer y grant

Mae'n rhaid i chi anfon eich cais am grant erbyn 10 Medi 2021.



**Mae'n rhaid i chi anfon:**

- eich ffurflen
- linc i'ch ffilm
- eich dogfennau llywodraethu.



Dogfennau llywodraethu yw pethau fel:

- Cyfansoddiad
- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Gweithred Ymddiriedolaeth

Nhw yw'r papurau cyfreithiol sy'n ffurfio eich sefydliad.

Bydd 2 gam i benderfynu pwy sy'n cael y grant.



**Cam 1 Llunio'r rhestr fer**

Bydd y Tîm Breuddwyd yn edrych ar y ffilm a'r ffurflen.

**Cam 2 cyflwyniad**



Os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer bydd angen i chi gyflwyno i'r panel ac ateb cwestiynau. Efallai y bydd hyn yn digwydd dros Zoom.

Bydd y cyflwyniadau ar 28 Medi 2021.





Dylech chi lenwi'r ffurflen mewn fformat darllen hawdd. Mae'r dudalen nesaf yn rhoi rhai syniadau am wneud y ffurflen yn hawdd i bawb ei darllen.



Byddwch chi'n cael gwybod dros y ffôn neu drwy e-bost 3 wythnos ar y mwyaf ar ôl y dyddiad cau.



# Pethau i feddwl am wrth i chi lenwi'r ffurflen:




- Defnyddiwch eiriau hawdd




- Ceisiwch osgoi jargon neu dalfyriadau (llythrennau) ar gyfer pethau. Os oes rhaid i chi ddefnyddio nhw, esboniwch beth maen nhw'n golygu.




- Defnyddiwch frawddegau byr a pharagraffau byr.

Helo

- Defnyddiwch ffont syml fel arial

Helo

- Defnyddio maint ffontiau 16 pwynt




- Gofynnwch i aelodau eich tîm cyd-gynhyrchu i wirio bod y ffurflen yn hawdd ei darllen.